OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1265

# Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) 2015

## RHAN 1

### Categorïau Penodedig

**Categorïau o geiswyr at ddiben adran 78**

**2.** Mae'r canlynol yn gategorïau o geiswyr at ddiben adran 78 (penderfynu rhoi sylw i fwriadoldeb)—

(a) menyw feichiog neu berson y mae'n preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddi breswylio gydag ef;

(b) person y mae plentyn dibynnol yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;

(c) person—

(i) sy'n hyglwyf o ganlyniad i reswm arbennig (er enghraifft: henaint, salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd corfforol neu feddyliol), neu

(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;

(d) person—

(i) sy'n ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd o ganlyniad i argyfwng megis llifogydd, tân neu drychineb arall, neu

(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;

(e) person—

(i) sy'n ddigartref o ganlyniad i wynebu camdriniaeth ddomestig, neu

(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef (ac eithrio'r sawl sy'n cam-drin) neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;

(f) person—

(i) sy'n 16 neu'n 17 oed pan fo'r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, neu

(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;

(g) person—

(i) sydd wedi cyrraedd 18 oed, pan fo'r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, ond nid 21 oed, sy'n wynebu perygl arbennig o gamfanteisio rhywiol neu ariannol, neu

(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef (ac eithrio camfanteisiwr neu gamfanteisiwr posibl) neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;

(h) person—

(i) sydd wedi cyrraedd 18 oed, pan fo'r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, ond nid 21 oed, a oedd yn derbyn gofal, yn cael ei letya neu'n cael ei faethu ar unrhyw bryd pan oedd o dan 18 oed, neu

(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;

(i) person—

(i) sydd wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog rheolaidd y Goron sydd wedi bod yn ddigartref ers gadael y lluoedd hynny, neu

(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;

(j) person sydd â chysylltiad lleol ag ardal yr awdurdod tai lleol ac sy'n hyglwyf o ganlyniad i un o'r rhesymau canlynol—

(i) bod wedi bwrw dedfryd o garchar o fewn ystyr adran 76 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000(**1**),

(ii) bod wedi ei remandio mewn carchar neu ei draddodi i garchar gan orchymyn llys, neu

(iii) bod wedi ei remandio i lety cadw ieuenctid o dan adran 91(4) o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012(**2**),

neu berson y mae person o'r fath yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef.

(**1**) 2000 p. 6.
(**2**) 2012 p. 10.